**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref ER
Ein cyf/Our ref : MDFWL/00304/25

Cynghorydd Ioan Thomas
Cadeirydd Cyngor Sir Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Stryd Shirehall
Caernarfon
GwyneddLL55 1SH

23 Mehefin 2025

Annwyl Cynghorydd Thomas,

Diolch am eich lythyr yn ymwneud â'r cynnydd yn y cyfraniadau Yswiriant Gwladol i gyflogwyr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU.

Ar 30 Mai, esboniais ddull Llywodraeth Cymru o gefnogi cyflogwyr y sector cyhoeddus sydd wedi datganoli i Gymru o ran y cynnydd yn y cyfraniadau Yswiriant Gwladol i gyflogwyr. Yn ogystal â darparu, yn llawn, y cyfraniad o £185m gan lywodraeth y DU o ganlyniad i Barnett, rwyf hefyd yn darparu £36m ychwanegol yn 2025-26 o Gronfa Wrth Gefn Cymru, gan greu pecyn cyfan o £220 miliwn i gefnogi ein cyflogwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Bydd pob cyflogwr sector cyhoeddus yn derbyn cyllid i dalu 86% o'r costau Yswiriant Gwladol ychwanegol maent yn eu hwynebu eleni. Rydym yn parhau i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i ariannu'r cynnydd mewn Yswiriant Gwladol yn llwyr ar gyfer cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn yr un ffordd ag y mae wedi ei wneud yn Lloegr. Rydym wedi mynd mor bell ag y gallwn, gan ddefnyddio cyllid a allai fod wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau rheng flaen, i dalu bil treth a grëwyd gan Lywodraeth y DU. Rydym yn cydnabod bod hyn yn creu anhawsterau i'r sector cyhoeddus, ond allwn ni ddim fforddio talu'r bil hwn yn llwyr pan nad yw Llywodraeth y DU wedi darparu'r cyllid angenrheidiol i wneud hynny.

O safbwynt dosbarthu'r cyllid hwn rhwng awdurdodau lleol, ystyriodd Is-grŵp Dosbarthu ddulliau gwahanol yn ei gyfarfod diwethaf ac mae'n disgwyl cadarnhau'r methodoleg yn ystod yr wythnosau i ddod.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydych chi hefyd yn galw am ddiwygio pellach o'r system Barnett. Barn Llywodraeth Cymru er peth amser yw y dylai fod system arian sydd yn seiliedig ar anghenion yn gweithredu'n gyson ar draws y DU, wedi'i chytuno gan bedair o Lywodraethau. Credwn hefyd y dylai'r system cyllido ddatganoledig gael ei goruchwylio a'i gweithredu gan gorff sy’n annibynnol i Lywodraeth y DU er mwyn creu fframwaith tecach a mwy effeithlon. Byddai'n helpu i leihau'r anffurfiaeth a'r aneffeithlonrwydd sy'n codi yn y system bresennol, a byddai'n caniatáu dyraniad mwy rhesymegol a thryloyw o wariant cyhoeddus ar draws y DU.

Ein blaenoriaeth yn y cyfnod byr yw sicrhau bod y fformiwla cyllido cyfredol yn darparu ar gyfer Cymru. Rydym wedi gofyn am ragor o hyblygrwydd ar ein cyllidebau a byddwn yn parhau â'n trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar ei ymrwymiadau maniffesto i’n galluogi ni i reoli ein hadnoddau yn fwy effeithiol.

Yn gywir,

**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language